



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
University Health Board

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Newyddion Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN)

RHIFYN 2: Awst - Hydref 2023

## Croeso i ail rifyn ein cylchlythyr chwarterol.

Ar y tudalennau hyn, rydym yn hapus iawn i allu rhannu cyfoeth o ddiweddariadau, mewnwelediadau a newyddion gyda chi sy'n arddangos y gwaith gwydych chi'n cael ei wneud gan y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN) ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

O fentrau newydd, cyflawniadau lleol a ddigwyddiadau, y cylchlythyr hwn yw eich porth i'r wybodaeth ddiweddaraf a bod yn rhan o'r hyn sy'n digwydd.

Diolch i chi am fod yn rhan o'n cymuned a gobeithiwn y bydd y rhifyn hwn yn llawn gwybodaeth ac yn eich ysbrydoli.

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen NCN, ewch i

[Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth \(NCNs\) -Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan \(nhs.wales\)](#), neu anfonwch e-bost at: [abb.strategicchangeteam@wales.nhs.uk](mailto:abb.strategicchangeteam@wales.nhs.uk)

Cynnwys:

**Tudalen 1**

Croeso

Digwyddiadau Cynllunio'r Gaeaf

**Tudalen 2**

Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth  
Blaenau Gwent

**Tudalen 3**

Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth  
Caerffili

**Tudalen 4**

Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Sir  
Fynwy

**Tudalen 5**

Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth  
Casnewydd

**Tudalen 6**

Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth  
Torfaen

**Tudalen 7**

Cydweithfeydd Proffesiynol

**Tudalen 8**

Diweddariad Cyfathrebu ac  
Ymgysylltu Rhwydwaith Gofal  
Cymdogaeth

## Digwyddiadau Cynllunio'r Gaeaf



Mae digwyddiadau cynllunio'r gaeaf wedi'u cynnal ar draws ardaloedd yng Ngwent. Roedd hwn yn ddull newydd ac arloesol, gan roi cyfle i wneud gwahaniaeth yn ystod cyfnodau anodd y gaeaf hwn. Roedd cynrychiolaeth o ystod o wasanaethau clinigol yn y digwyddiadau, gan gynnwys gofal eilaidd, gofal cymunedol a gofal sylfaenol ac at hyn roedd yno randdeiliaid allweddol o'r trydydd sector, sy'n aml yn cynorthwyo gydag osgoi derbyniadau a/neu ryddhau'n gynnar.

Roedd y digwyddiadau'n cydnabod pa mor fregus yw cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws gwasanaethau clinigol, ac yn pwysleisio fod hyn yn arbennig o wir yn ystod cyfnod y gaeaf. Roeddent hefyd yn rhoi cipolwg fanwl ar y gwasanaethau sydd ar gael ar draws ardaloedd Gwent a llwybrau cysylltiedig. Nodwyd rhwystrau posibl ynghyd ag atebion arfaethedig i sicrhau bod llwybr y claf yn broses glir a symlach. Cafodd dewisiadau eraill yn hytrach na derbyn i'r ysbyty eu harddangos hefyd.



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## Blaenau Gwent

### Ymgyrch Ffliw Blaenau Gwent 2023



Fel rhan o Ymgyrch Ffliw Blaenau Gwent ar gyfer 2023, mae tîm yr Ardal Leol yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y plant 2-3 oed sy'n cymryd rhan ac yn gweithio ar y cyd â'r tîm nyrsio mewn ysgolion. Mynychodd y ddau dîm Ganolfan Hamdden Glyn Ebwy fis Awst eleni a byddant yn mynychu sawl digwyddiad Cymunedol i hyrwyddo pwysigrwydd cael y brechlyn fflw.

Mae cyfres o fideos hefyd wedi'u cynhyrchu mewn cydweithrediad â'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o frechiadau fflw i blant.

Gellir lawrlwytho'r fideos o Vimeo yn

<https://vimeo.com/865921621?share=copy>

### Digwyddiadau Adolygu Nyrsio Ardal

Mae Nyrsys Ardal Blaenau Gwent wedi dechrau adolygiadau datix wythnosol, fel cyfle i adolygu digwyddiadau sy'n cael eu hymchwilio a darparu cefnogaeth i reolwyr tîm/arweinydd tîm i allu cwblhau a chau achosion.

Mae Datix wedi gwella'n aruthrol. Roedd 21 adolygiad ar agor ddydd Mercher y 13eg o Fedi ar gyfer BG D/N, a disgwylir i'r nifer yma ostwng i 0 yn fuan. Fe ddylai'r broses gefnogi gwneud y digwyddiadau'n haws i'w rheoli (rydym yn aros am RCA - mae gan rai cleifion fwy nac un)

### Diwrnod Hwyl Staff a Theuluoedd Ysbyty Aneurin Bevan

Cynhaliodd Ysbyty Aneurin Bevan Ddiwrnod Hwyl i'r Staff a'r Teulu fel rhan o'u Dathliadau GIG75. Trefnodd y staff lu o ddigwyddiadau y gallai'r teulu oll eu mwynhau – cerddoriaeth fyw, stondinau bwyd, paentio wynebau, crefftau a llawer mwy! Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys diwrnod mabolgampau rhyngadrannol a chyflwynwyd medalau i'r holl staff am gymryd rhan ond Ward Ebwy oedd enillwyr y diwrnod wrth iddynt gipio'r wobr fawr!

Canlyniadau Mabolgampau:

1af Ward Ebwy

2il Cwm Coch

3ydd Sirhowy



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board





GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## Caerffili

### Gardd Gymunedol Caerffili

Mae ardal Caerffili ac IWN wedi cysylltu â Cadwch Gymru'n Daclus er mwyn creu gardd leol ar gyfer y gymuned leol, cleifion Canolfan Iechyd Trethomas a Staff.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn elusen sydd wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau lleol ledled Cymru i warchod ein hamgylchedd nawr ac yn y dyfodol. Ei gweledigaeth yw Cymru hardd y mae pawb yn gofalu amdani ac yn ei mwynhau. Gwnaed cysylltiadau a sicrhawyd pecyn gardd i'w osod yng Nghanolfan Iechyd Trethomas.

Pwrpas yr ardd yw dod â'r gymuned yn nes, gan wella iechyd a lles cleifion, y gymuned leol a staff wrth roi rhywbeth i bobl y gallant fod yn falch ohono a rhywle y maent eisiau treulio amser ynddo yn gwneud hyn a'r llall.

Mae'r ardd wedi ennyn diddordeb nifer sylweddol o bobl sydd wedi ymweld â'r safle yn ogystal â thrigolion o'r strydoedd cyfagos, erbyn hyn bydd 3 o bobl leol yn ymuno â thîm ardal IWN a Chaerffili i gynnal a gofalu am yr ardal hon.

Ni fydd llawer i'w wneud yr adeg yma o'r flwyddyn gan y bydd y planhigion yn mynd yn ôl at eu gwraidd ond pan ddaw'r gwanwyn, dylem weld y planhigion yn tyfu a chreu mynedfa hyfryd i'n hadeilad a dyma'r amser y byddwn yn mynd ati i chwilio am fwy o wirfoddolwyr.

Mae'n waith sy'n mynd rhagddo, fe ddewison yr ardd bywyd gwyllt gan ei fod yn brosiect bychan ac yn teimlo fel rhywbeth y gallem ei gychwyn yn fychan ond yn rhywbeth a allai dyfu'n fwy yn y dyfodol.



### Cymunedau Caerffili yn Cefnogi Preswylwyr Lleol

Hoffai'r NCN dynnu sylw at y gwaith da sy'n digwydd yng Nghaerffili sy'n cael ei arwain a'i gyflawni gan y Cymunedau eu hunain. Isod mae 2 enghraifft yn unig o'r gwaith sy'n cael ei wneud: **Rhannu bwyd a Chaffi Cwtch**

Mae rhestr lawn o'r banciau bwyd ar gael ar [dudalen Costau Byw](#).

Mae gwefan Cwtsh yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau lles a chefnogaeth sydd ar gael mewn cymunedau ar draws y Fwrdeistref

[www.cwtsh.cymru](http://www.cwtsh.cymru)

### Canolfan Iechyd Tredegar - Cefnogaeth i Wcráin

Mae datgomisiynu Canolfan Iechyd Tredegar wedi mynd gam ymhellach i helpu eraill. Yn ogystal ag ailgartrefu dodrefn o swyddfeydd gwag i dimau Byrddau Iechyd eraill a rhoi llawer o eitemau i siopau elusen a chanolfannau ailgylchu, arweiniodd cyflwyniad gan gydweithiwr at allu'r prosiect i helpu WAFU (Welsh Aid for Ukraine).

Ym mis Awst 2023, casglodd cefnogwyr WAFU eitemau o'r ganolfan iechyd, gan gynnwys offer meddygol a chyflenwadau meddygol, a'u danfon i'r Wcráin.





GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## Sir Fynwy

### Bag er budd yn Sir Fynwy!

Lansiwyd menter i wneud derbyniadau i'r ysbyty yn fwy effeithlon yn Sir Fynwy. Mae'r cynllun bagiau coch ar waith fel modd o wella profiadau cleifion sy'n breswylwyr cartrefi gofal sy'n gorfod mynd i'r ysbyty.

Ffocws y Cynllun Bag Coch yn Sir Fynwy yw preswylwyr sy'n mynd yn sâl ac, yn dilyn asesiad, sy'n sydd angen gofal ysbyty. Mae staff cartref gofal yn pacio bag coch pwrpasol, sy'n cynnwys yr holl waith papur safonol a meddyginiaeth, yn ogystal ag eitemau personol fel sbectol, dannedd gosod a chymhorthion chlyw. Mae'r bag coch yn sicrhau y gall staff ambiwlans a staff ysbyty ddeall cyflwr ac anghenion personol preswilydd yn gyflym - mae'r bag hefyd yn hwyluso trosglwyddiad esmwyth pan fyddant yn barod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty.



### Ymgyrch recriwtio gofal sylfaenol yn cael ei lansio yn Sir Fynwy

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn falch iawn o gyhoeddi lansiad ymgyrch recriwtio ddeinamig. Nod yr ymgyrch yw gwella recriwtio ar draws gwasanaethau gofal sylfaenol a chodi proffil y Bwrdd Iechyd fel cyflogwr.

Mae rhagor o wybodaeth a dolenni i'r holl adnoddau ar gael yn y diweddariad Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar dudalen 8.



More than just a job  
*A passion, a purpose, a place*

"If you want a great work-life balance, this is a fantastic place to live. I think we've got it all - if you like cycling, walking, canoeing, rafting. Also, the team at the surgery are wonderful people. The patients are lovely as well. So, you just can't better it."

Dr Brian Harries, GP & North Monmouthshire Cluster Lead.



### Diweddariad ar Adeilad Newydd Parc Severn View

Fel y gwyddoch, y nod oedd symud i mewn i'r adeilad newydd fis Medi eleni.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr a'r Contractwyr i sefydlu rhaglen glir a phendant gan fod cymaint o waith wedi'i wneud ar y prosiect yn barod.

Siomedig iawn yw rhannu na fyddwn, am nifer o resymau, yn gallu symud i mewn eleni a'r bwriad nawr yw symud ar y 4ydd o Fawrth 2024. O'r cychwyn cyntaf, yr amserlen oedd 16 mis i adeiladu'r cartref a 2 fis i symud o'r cartref presennol i'r cartref newydd. Oherwydd y pandemig, newidiodd yr amserlenni yn sylweddol ond, er hyn, roeddem yn gobeithio y byddai'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf eleni ac y byddem yn symud i mewn yn ystod mis Medi. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae prosiectau mawr fel hyn yn gymhleth a dyddiadau bras yn unig yw dyddiadau'r rhaglen. Yn ystod yr 18 mis diwethaf rydym wedi wynebu nifer o heriau sydd wedi effeithio ar y prosiect. Arweiniodd tywydd ofnadwy mis Ionawr / Chwefror eleni at oedi o bum wythnos.

Fodd bynnag, mae'r problemau mwyaf yn ystod y 6 mis diwethaf wedi ymwneud â gwasanaethau i'r safle; yn benodol y cyflenwad dŵr ond daethpwyd o hyd i ateb yn y diwedd a dechreuodd y gwaith ym mis Mai.





## Casnewydd

### Ffair Iechyd Casnewydd

(Diweddariad o'r diwrnod a gynhaliwyd ar 30 Medi yn Eaton Road)  
Roedd y Ffair Iechyd yn ddiwrnod gwyb ac roedd Tîm Meddygon Mwslimaidd Cymru yn arbennig ac yn brysur iawn drwy'r dydd. Daeth tua 80 o bobl i'r digwyddiad, ac roedd llawer o ddiddordeb gan y gymuned.



Roedd y diwrnod yn cynnwys: sgrinio CVD; hepatitis DBST; 35 o brofion wedi'u gwneud a bu'n rhaid troi pobl i ffwrdd hyd yn oed; brechiadau C19; Cyngor ar imiwneiddiadau Plentynod; Melo a'r Cynghorydd Lles Afshan Morgan; Presenoldeb tîm Alzheimer; cyngor ar ffordd o fyw; Cyngor sgrinio poblogaeth a ffordd o fyw a'r Lefel 1 (gwefan), Lefel 2 Slimming World (cymorth rheoli pwysau); ychydig iawn o bobl oedd yn gwybod ei fod am ddim ar y GIG!

### Mae Clock Cricket yn ôl

Ddydd Mercher 11 Hydref 2023, daeth Clock Cricket yn ôl yn Ysbyty Gwynllyw yn dilyn cyfnod o absenoldeb oherwydd covid. Cymerodd nifer o gleifion ran o wahanol wardiau ac roedd pawb wedi mwynhau. Dywedodd un aelod o'r teulu a oedd yn digwydd bod yn ymweld ar adeg y digwyddiad (ac a gymerodd ran hyd yn oed!) "Rwy'n synnu'n fawr gweld mam yn symud o gwmpas; dyma'r tro cyntaf ers iddi fod yma. Mae'n braf ei gweld yn mwynhau ei hun ac yn gwenu".

Bydd Clock Cricket yn dod yn ddigwyddiad rheolaidd yn Ysbyty Gwynllyw o hyn ymlaen. Mae'n weithgaredd ysgafn y gall pob claf gymryd rhan ynddi.

Mae Clock Cricket yn gêm wych sy'n canolbwyntio ar hwyl. Mae'n fformat syml iawn, caiff ei chwarae dan do a heb i chi orfod symud o'ch cadair gyfforddus!

Mae Clock Cricket yn Gwmni Buddiannau Cymunedol dielw sy'n frwd dros gyflwyno hwyl a chwerthin drwy weithgarwch corfforol i bobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth a chysylltiadau ar Clock Cricket trwy ddilyn y ddolen hon: [Home \(clockcricket.co.uk\)](https://clockcricket.co.uk).

<https://vimeo.com/831823973?share=copy>

### Ymarferwyr Iechyd Seicolegol Casnewydd(PHP)

O fewn NCN Casnewydd mae'r Ymarferwyr Iechyd Seicolegol (PHP) wedi'u gwasgaru ar draws y Dwyrain a'r Gorllewin.

Mae'r gwasanaethau'n cynnig ymyrraeth a chymorth seicolegol a lles lefel isel, gan leihau'r galw ar apwyntiadau meddygon teulu ar gyfer materion o'r natur yma.

Yng Nghasnewydd rydym wedi ehangu'r gwasanaeth ymhellach i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol yn y ddinas trwy gynnal PHP pwrpasol sydd wedi'i anelu at gymunedau ethnig yn unig.

Mae Afshan Morgan, y PHP ymroddedig, yn cynnig cymorth ar draws y ddau NCN ac mae'n defnyddio ei chysylltiadau a'i phrofiad i ymgysylltu â chymunedau lleol na fyddent fel rheol yn ymgysylltyn mewn practis meddyg teulu gyda'r materion hyn. Mae'n amlwg fod y gwasanaeth yn llwyddiant ysgubol, mae Afshan yn siarad sawl iaith ac felly mae hyn yn helpu i gysylltu â rhai cymunedau lleol a rhoi cyngor iddynt ar y gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r gwasanaeth Allgymorth PHP yn derbyn atgyfeiriadau gan feddygon teulu ond mae'r mwyafrif o gleientiaid/cleifion yn dod i'r amlwg gan fod Ashfan yn gweithio yn y gymuned. Mae gwybodaeth am waith y PHP yn cael ei rannu ar lafar trwy gymunedau sy'n gallu cysylltu ag Ashfan yn uniongyrchol dros y ffôn

<https://vimeo.com/790481108/1bcf3e5b1c?share=copy>





## Torfaen

### Age Connects Torfaen

Age Connects Torfaen yw teitl a ddefnyddir am Age Concern Torfaen, elusen annibynnol ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn Nhorfaen a'r ardaloedd cyfagos. Mae ganddynt dros 30 mlynedd o brofiad o ymroi i gefnogi pobl hŷn, gofalwyr a'u teuluoedd.

Mae Age Connects Torfaen yn elusen leol, sy'n anelu at ddarparu gwasanaethau ar gyfer Pobl Iau a Hŷn sydd â Dementia a'r rhai sy'n unig. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau ar gyfer eu gofalwyr os ydynt dros 50 oed. Eu cenhadaeth yw ymdrechu'n barhaus i wella ansawdd bywyd Pobl Hŷn ynghyd ag annog, grymuso a hyrwyddo lles tra'n cynnal eu hannibyniaeth.

Maent yn falch o fod yn helpu i wneud Torfaen yn lle gwych i heneiddio ynddo. <https://ageconnectstorfaen.org.uk>

### TSgrinio am Ymlediadau Aortaidd yn yr Abdomen yn Nhorfaen

Sefydlwyd Rhaglen Sgrinio am Ymlediadau Aortaidd Cymru (WAASP) yn 2013 i leihau nifer y marwolaethau o ganlyniad i Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen sy'n rhwygo (AAA). Dim ond dynion 65 oed a hŷn sy'n cael eu gwahodd gan y rhaglen am uwchsaïn syml o'u abdomen i benderfynu a oes ganddynt AAA ai peidio. Mae hyn oherwydd eu bod chwe gwaith yn fwy tebygol dod o hyd i AAA mewn dynion nac mewn menywod. Os deuir o hyd i ymlediad, yna gwahoddir y dynion hyn yn ôl a chânt eu rhoi mewn rhaglen wylidwriaeth er mwyn monitro twf eu hymlediad. Os byddwn yn dod o hyd i ymlediad mawr, caiff y dynion hyn eu hatgyfeirio wedyn i ofal eilaidd er mwyn iddynt gael trafod eu hopsiynau o ran triniaeth. Mae'r rhain fel arfer yn cynnwys llawdriniaeth i atgyweirio'r ymlediad. Mae'r sgrinwyr sy'n gwneud y sganau yn fedrus iawn ac maent wedi'u hyfforddi i wneud y sgan uwchsaïn o'r aorta abdomenol yn unig a gallant roi'r canlyniadau ar ddiwedd y sgan.

Dechreuodd y gwasanaethau yn Ysbyty'r Sir ar y 28ain o Fedi, a Chanolfan Adnoddau Blaenafon ar y 9fed o Hydref.



Os ydych yn ddyn, a thros 65 oed gallwch ffonio'r ddesg gymorth am gyngor neu i wneud apwyntiad: 01443 235161.

### Tîm Rhywedd Lleol

Sefydlwyd y Tîm Rhywedd Lleol (LGT) ym mis Mai 2020 a gelwir y clinig ei hun yn lleol yn "Glinig Alex". Mae'r Tîm yn gweithio'n agos gyda Thîm Rhywedd Cymru (WGT), ac maent yn derbyn unrhyw atgyfeiriadau ar gyfer cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan dros 18 oed, sydd angen therapi hormonau. Fe ddechreuon nhw'n wreiddiol gyda 15 o gleifion ac, ym mis Gorffennaf, roedd 136 o gleifion yn derbyn gwasanaeth a 80 ar restr aros. Ar hyn o bryd maent yn gweithio o'r Uned Cedar yn Ysbyty'r Sir, Pont-y-pŵl, ac yn defnyddio cyfleusterau yn yr Adran Cleifion Allanol ar gyfer rhoi pigladau hormonau i rai cleifion. Mae'r tîm yn cynnwys 2 Glinigwr, Dr Eleri Roberts a Dr Sarah Jones, a Gweinyddwr, Charlotte Black. Y nod yw helpu a chefnogi cleifion yn ddiogel trwy eu llwybr pontio.

### Gwobr Cyflawniad Oes i Dr David Millar-Jones

Rydym yn hynod falch o gyhoeddi bod ein Dr David Millar-Jones wedi derbyn Gwobr Cyflawniad Oes gan y Primary Care Diabetes Society am wasanaethau i'r gymdeithas yn ystod ei gyfnod o 6 mlynedd fel Cadeirydd y gymdeithas, o 2012-2018.



## Cydweithrediaethau Proffesiynol

Mae Mentrau Cydweithredu Proffesiynol (PCs) yn rhwydweithiau o weithwyr proffesiynol sy'n rhannu arbenigedd, sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio eu sgiliau unigryw i asesu anghenion y boblogaeth yn yr ardal y maent yn gweithio ynddi.

Mae'r Cydweithrediaethau Proffesiynol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r meysydd:

- Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs)
- Nyrsio Cymunedol
- Deintyddol
- Meddygaeth Gyffredinol
- Optometreg
- Fferylliaeth

Mae llawer o waith caled wedi'i wneud ar draws pob Bwrdeistref i sefydlu cynrychiolwyr Cydweithredu Proffesiynol. Bydd y mentrau cydweithredol yn casglu gwybodaeth a phrofiad gweithwyr proffesiynol lleol er mwyn mapio darpariaeth gwasanaeth, nodi bylchau a datblygu yn erbyn anghenion.

## Cydweithrediaeth Nyrsio Blaenau Gwent

Cynhaliodd Blaenau Gwent lansiad eu Cydweithrediaeth Nyrsio Proffesiynol ar yr 20fed o Fedi ym Mrynmawr.

Mynychwyd y lansiad gan gynrychiolwyr o wahanol arbenigeddau nyrsio ar draws ardal Blaenau Gwent. Y nod oedd defnyddio a gwneud y gorau o'u harbenigedd i drafod ffyrdd newydd o weithio ac i gydweithio.

Cadeiriwyd y lansiad/cyfarfod gan Jo Lane, Dirprwy Bennaeth Nyrsio Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol, gyda chefnogaeth Dr Isolde Shore-Nye Arweinydd NCN ar gyfer Dwyrain Blaenau Gwent a thîm Ardal Blaenau Gwent.

Cynhaliwyd trafodaethau er mwyn nodi nodau ac amcanion a rennir ar gyfer y grŵp cydweithredol.



## Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd - Cyflwyniad i Gynrychiolydd Cydweithredu Proffesiynol

Mae Dave Gamble, Pennaeth Dros Dro Podiatreg ac Orthoteg yn falch iawn o ymgymryd â rôl cynrychiolydd Cydweithredu Proffesiynol AHP ar gyfer Sir Fynwy.

Mae gweithio gyda chymheiriaid proffesiynol o fewn ac ar draws ffiniau gwasanaeth yn helpu ein gweithlu i ddarparu'r safonau gofal y maent yn anelu atynt. Mae'r ffordd hon o weithio yn ei gwneud yn haws iddynt eirioli ar ran eu cymuned i gyflawni gwelliannau i'r system ehangach o fewn eu maes arbenigedd.

Fel rhan o hyn, mae sianel MS TEAMS ar gyfer AHP's wedi'i chreu, fel y gall AHP rannu gwybodaeth a thrafod materion yn ymwneud â Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn Sir Fynwy. Os hoffech gael eich ychwanegu at y grŵp anfonwch neges at Dave. [Dave.Gamble@wales.nhs.uk](mailto:Dave.Gamble@wales.nhs.uk)

## Lansiad Cydweithrediaeth Nyrsio Proffesiynol Sir Fynwy

Cynhaliodd Sir Fynwy lansiad eu Cydweithrediaeth Nyrsio Proffesiynol ar yr 22ain o Fedi ym Mrynbuga. Mynychwyd y cyfarfod gan nifer dda o gynrychiolwyr o wahanol dimau nyrsio o bob rhan o ardal Sir Fynwy. Daethant ag arbenigedd o wahanol arbenigaethau at ei gilydd er mwyn trafod gweithio ar y cyd.

<https://vimeo.com/866825340?share=copy>







GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

Ar gyfer ymholiadau Cyfathrebu ac Ymgysylltu  
NCN, cysylltwch â [lisa.orford@wales.nhs.uk](mailto:lisa.orford@wales.nhs.uk)

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu NCN

### Peilot Ymgyrch Recriwtio Gofal Sylfaenol

IMewn ymateb i anghenion gofal iechyd cynyddol y cymunedau ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau hygyrchedd a gwasanaethau gofal sylfaenol o ansawdd uchel. Sir Fynwy yw'r ardal gyntaf i gynnal ymgyrch recriwtio benodol a lleol ac os bydd yn llwyddiannus, bydd yn cael ei chyflwyno ar draws holl ardaloedd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN) y Bwrdd Iechyd.

Dr Annabelle Holtam, Meddyg Teulu, Practis Mount Pleasant, Cas-gwent: "Rwy'n teimlo mai braint yw byw a gweithio yn Sir Fynwy fel meddyg teulu. Mae wedi bod yn wych gweithio ar ymgyrch sy'n hyrwyddo'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith y mae Sir Fynwy yn ei gynnig. Rwy'n gobeithio bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws y DU a thu hwnt yn cael eu denu i weithio yma i wella'r ddarpariaeth gofal iechyd lleol ymhellach ar gyfer cymunedau gwych Sir Fynwy."

Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â diddordeb a darpar ymgeiswyr ddysgu mwy am yr ymgyrch, clywed gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol presennol ac archwilio cyfleoedd gyrfa trwy fynd i:

<https://abuhb.nhs.wales/healthcare-services/primary-care-and-community-recruitment/>

Ar gyfer practisau a gwasanaethau sydd am recriwtio, mae pecyn asedau ymgyrchu wedi'i greu i helpu i hysbysebu swyddi: [Ymgyrch Recriwtio \(Peilot\) - banc asedau \(sharepoint.com\)](#)



### Llywio Gofal i Ofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Mae canllaw newydd wedi'i greu ar gyfer y rhai sy'n llywio Gofal er mwyn eu cynorthwyo o ran cyfeirio at ofal brys a gofal mewn argyfwng ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r canllaw hyfforddi wedi'i gynllunio i roi'r wybodaeth angenrheidiol i'r rheiny sy'n llywio gofal er mwyn eu galluogi i gyfeirio'r cyhoedd i'r lle iawn ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, y tro cyntaf.

[Gallwch lawrlwytho'r pecyn hyfforddi yma](#)

### Cyflwyniad Sgrin NEWYDD ABUHB

Mae cyflwyniad sy'n cynnwys negeseuon iechyd, ymgyrchoedd a gwybodaeth am wasanaethau wedi'i greu er mwyn iddo gael ei ddefnyddio ar sgriniau sy'n wynebu'r cyhoedd.

Mae'r cyflwyniad yn para am 26 munud, mae'n ddwyieithog a gellir ei chwarae gyda/heb sain gan ei fod wedi'i isdeitlo. Fformat y ffeil yw MP4 a gellir ei osod i'w chwarae ar ddolen.

[Lawrlwythwch yffail ddwyieithog yma](#)



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board